| Maes Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | | Mae holl bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn cael eu hadolygu ar gyfer cydymffurifaeth â Rheoliad GDPR.<br>**Cwblhawyd, a bydd yn mynd ymlaen fel y bo'r angen** |
| Penodi Clerc i'r Awdurdod/Swyddog Monitro yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod. | Prif Swyddog Tân | Cwblhawyd ymarfer tendro, dyfarnwyd contract a chymeradwywyd penodi swyddog monitro/clerc yng nghyfarfod yr ATA ym mis Mawrth 2019.<br>**Cwblhawyd** |
| Adolygu Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor, ac fel y bo'r angen, ei ddiweddaru i sicrhau ei fod yn llwyr fodloni gofynion Llywodraethu'r Awdurdod. | Clerc yr Awdurdod | Rhoi'r cylchoedd gorchwyl diwygiedig i gyfarfod yr ATA ym mis Mehefin 2019.<br>**Cwblhawyd** |
| Adolygu a diweddaru Rheolau Sefydlog Contractau'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith ar gyfer Llywodraethu a Rheoli mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys gwariant cyfalaf. | Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) | Cyflwyno'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygedig i gyfarfod yr ATA ym mis Mehefin 2019.<br>**Cwblhawyd** |
| Adolygu a diweddaru gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol. | Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) | Diweddarwyd y cylch gorchwyl. Nodir yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol pa hyfforddiant mae'r aelodau wedi'i gael.<br>**Cwblhawyd** |

# Atodiad A – Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethiant 2019/20

| Maes Gwelliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Trefniadau Llywodraethu a Chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru. | Sicrhau y rhoddir sylw unrhyw newidiadau i drefniadau Llywodraethu a Chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru. | PST | Ymlaen |
| Adolygiad o'r Fflyd Gwyn | Cynnal adolygiad a diweddaru polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer rheoli cerbydau'r fflyd gwyn; ac<br><br>Adolygu'r system cofnodi cerbydau i gryfhau'r llywodraethiant ar gyfer olrhain a rheoli cerbydau. | PSC (Cyllid ac Adnoddau)<br>PSTC Gweithrediadau<br>Pennaeth Cyllid<br>Rheolwr y Fflyd | Mawrth 2020 |
| Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog | Adolygu'r Rheoliadau Ariannol a'r Polisïau Cyllid yn unol â model CIPFA i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod. | PSC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Cyllid | Mawrth 2020 |
| Gwasanaethau Trysorydd | Caffael Gwasanaethau Trysorydd. | PSC (Cyllid ac Adnoddau) | Ionawr 2020 |
| Adolygu strwythur y Prif Swyddogion | Adolygu strwythur a threfniadau talu i sicrhau rheolaeth strategol effeithiol. | Swyddog Monitro | Mawrth 2020 |
| Safonau Ymddygiad | Adolygu'r Safonau Ymddygiad ar gyfer y staff. | Prif Swyddogion | Mawrth 2020 |
| Seiber-ddiogelwch | Cwblhau Cyber Essentials Plus rhag bygythiadau seiber. | PSC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth TGCh | Mawrth 2020 |

